

Dal yn dynn

“Os erlidiasant fi, fe’ch erlidiant chwithau.” (adn. 20)

Beth am ddarllen Ioan 15:18–27 ac yna myfyrio

Mae gennym nifer o emynau sydd yn ein gwahodd i ildio i ewyllys. Mae’r emyn cyfarwydd: “Dy ewyllys di a wneler” yn arwyddo bod y Cristion, nid yn unig yn oddrychol i fodloni ar ewyllys Duw, ond i wneud hynny yn weithredol hefyd yn ei fywyd. Mae caniatáu i Dduw fod yn llyw yn ein bywyd yn un o’r arwyddion hynny o aeddfedrwedd ysbrydol. Rhaid wrth aeddfedrwedd gweithredol yn yr ystyr ein bod yn gweithredu’r gorchmynion hynny y mae’r Arglwydd yn eu rhoi inni. Hyd yn oed, pan fo’r gorchmynion hynny yn medru arwain at golli eiddo, carchariad, neu hyd yn oed golli bywyd. Efallai fod hyn yn ymadrodd caled iawn. Ond fe rydd Duw ras ar gyfer pob angen. Er bod ei safonau yn uchel, mae’n caniatáu grym i bechadur i ymgynraedd atynt.

Ychydig flynyddoedd yn ôl, ysgrifennodd Cristion oedd yn byw mewn gwlad lle mae Cristnogion yn cael eu herlid: “Rwy’n gwybod efallai y daw dydd pan fydd raid imi golli fy mywyd yn enw Crist.” Ychydig yn ddiweddarach, ysgrifennodd ei rieni oedd yn ymwybodol o’r llythyr blaenorol a rhoi’r newyddion yma i mi: “Lladdwyd ein mab gan eithafwyr crefyddol. Bu iddo gael ei saethu wrth iddo ymadael â’r eglwys.” Mae *Pob Dydd Gyda Iesu* yn cael ei ddarllen mewn dros 130 o wledydd yn y byd ac, felly, mae’n ddigon posibl fod pobl sydd yn darllen y nodiadau yma yn wynebu ar anawsterau difrifol oherwydd eu ffydd Gristnogol. Beth bynnag am hynny, dal yn dynn at yr Arglwydd, gyfaill. Mae gweddiâu miloedd yn dy gynnal yr awr yma.

Wrth edrych yn ôl, mae’r hyn y mae Duw wedi ei gyflawni drwy ufudd-dod ei bobl yn rhyfeddol. Mae’r un peth yn wir am heddiw ac am yfory os Duw a’i myn. Efallai fod gan Dduw fwriadau mawr ar gyfer ein bywyd a’r cyfan sydd raid i ni ei gyflawni yw ceisio ei ras a’i nerth ef i fyw yn ufudd. Duwioldeb yw y Cristion ar ei liniau yn addoli ac yn rhyfeddu, a’r Cristion ar ei draed mewn ufudd-dod llwyr.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 5:10–12; Ioan 16:1–4; 2 Tim. 3:12; Iago 1:12

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa resymau all fod dros ein herlid?
2. Sut all hyn fod yn fendith?

Gweddi

O Dad, yr ydym yn codi o’th flaen heddiw bawb sydd yn cael eu herlid oherwydd eu ffydd. Caniatâ ras iddynt i fod yn ffyddlon ymhob peth, a chynorthwya finnu i fod yn ufudd fel disgybl, ar fy ngliniau yn gwrando, ar fy nhraed yn dilyn. Amen.